

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth y 8fed o Orffennaf 2014

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr OP Huws – Cadair, Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Dyfed Edwards (Cyngorydd Sir), Menna Williams, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Eurig W Evans – Nebo; Dafydd Glyn Owen, Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Colin Jones a swyddog arall o'r adran o Gyngor Gwynedd; Craig ab Iago – Cyngorydd Sir.

Gwr Gwadd – Colin Jones, Cyngor Gwynedd. Croesawyd Colin ac Iwan i'r cyfarfod. Cynhaliwyd trafodaeth am ddatblygiadau i ddatrys problemau parcio Llanllyfni. Colin yn datgan bod y Cyngorydd Sir wedi cyfarfod ag ef sawl tro. Rhoddwyd tri cynnig gerbron, a phenderfynwyd ar geisio creu cynllun cymunedol i ddatblygu lle parcio ble mae'r grasscrete yn y cae chwarae. Mae'r cae dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd a rheolaeth Caeau Chwarae Brenin Sior. Gofynwyd i'r Cyngor Cymuned os y byddai yn fodlon i Gyngor Gwynedd agor trafodaethau efo'r ymddiriedolaeth Brenin Sior. Materion diogelwch angen eu trafod a bydd angen cais cynllunio. Tra'r oedd y swyddogion yn bresennol, holwyd am linellau melyn arfaethedig Hen Lon – Roedd y Cyngor yn siomedig nad yw'r llinellau yn cael eu ymestyn yn bellach, ond er hyn bydd y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynllun.

Llinellau glas ger y Co-op ym Mhenygroes – sylw'r Cyngor oedd bode nifer o bobl yn mynd yn erbyn y gorfodaeth bresennol, a defnyddwyr y ffordd sydd yn gwneud y penderfyniad i barcio yno yn y pen draw. Syniad Cyngor Gwynedd oedd ceisio amddiffyn y gyffordd drwy roi cyfyngiad o 10munud o fynedfa'r siop i fyny. Sylw'r Cyngor Cymuned oedd na fyddai problem pe byddai pobl yn dilyn y canllawiau presennol, a bod potensial i'r cynllun hwn wneud y broblem fynd yn waeth. Penderfynwyd gwrthod y cynllun fel ag y mae o, a gofyn i Gyngor Gwynedd ail-edrych.

Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- * Tir rhwng Penygroes a Pontllyfni – amnewid a gwella llinellau trydan presennol. Derbyn.
 - * Terannedd, Maes y Farchnad, Penygroes – Adeiladu porth blaen, estyniad cefn deulawr a cadw newidiadau i adeilad allanol cefn. Cymeadwyo.
 - * Barics Ty Mawr, Nantlle (OP Huws yn datgan diddordeb) – adnewyddu caniatad i godi adeilad unllawr – Cymeradwyo.
- Caniatawyd adeiladu storfa wartheg a slyri, Talymignedd Isaf, Nantlle.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

- *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – cyflwyno tystiolaeth dyddiad cau 31/7/14. Casglu ymatebion i'r holiaduron.
- *Chwarel Dorothea – darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'n ymholiad am unrhyw ddatblygiad ar y safle.
- *Drych Gweledd Ffordd Clynnog am gael ei adnewyddu.
- *Gloddfa Glai, gordyfiant – Y tocio wedi ei raglennu.
- *Gwliau Ffordd Rhedyw – Cyngor Gwynedd, wedi glanhau'r gwliau.

Gwefan Mae Is-grwp o'r Cyngor Cymuned wedi bod yn cydweithio efo Antur Nantlle i greu gwefan newydd i'r Cyngor, ac mae'r broses bron wedi ei chwblhau.

Materion Pentrefi. Talysarn Dim arwydd am Talysarn o Benygroes – holi Cyngor Gwynedd os oes posib cael arwydd; Gor-dyfiant coed yn amharu ar weledd wrth y gof-golofn; Bin Steshon yn llawn o ganiau a dwr budr, ac angen ei dynnu oddi yno.

Llanllyfni Gor-dyfiant coed o'r Quarry – atgoffa Cyngor Gwynedd o'r gwyn, ac nad yw'r coed wedi eu tocio; Cais gan blant yr ysgol am finiau ysbwriel yn y pentref – y Cyngor yn cefnogi; Gofyn am arwydd beicio ger gylchfan Poveys – ar y ffordd allan am y ffordd osgoi – cyfeirio at y llwybr sydd yn rhedeg y tu ol i'r wal lechi (ffordd o'r gylchfan at Lon Eifion).

Penygroes Olew ar y ffordd yn Trem yr Wyddfa – gofyn i swyddog o'r Adran Briffyrdd i gyfarfod Barry ar y safle i edrych ar y sefyllfa.